# Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Gynlluniau drafft Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru

Mehefin 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
Cynlluniau Drafft Rheoli Perygl Llifogydd ..... 3
2. Crynodeb o’r ymatebion ..... 5
3. Rhestr Ymatebwyr ..... 7
4. Trosolwg o’r materion allweddol a godwyd a’n hymateb ni ..... 9
Crynodeb o’r ymatebion i Adroddiadau Amgylcheddol y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ..... 12
5 Y Camau Nesaf ..... 14
Atodiad 1 ..... 15
Atodiad 2 ..... 16

# 1. Cyflwyniad

Daeth Cyfarwyddeb Llifogydd 2007/60/EC yr UE i rym ym mis Tachwedd 2007 ac mae wedi'i throsi'n gyfraith yn y Deyrnas Unedig drwy Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i aelod wladwriaethau asesu a oes perygl llifogydd i gyrsiau dŵr ac arfordiroedd, rhaid iddynt fapio hyd a lled y perygl hwnnw a mapio i beth y mae perygl, a rhaid iddynt gymryd camau digonol, wedi'u cyd-drefnu, i leihau'r perygl llifogydd hwn. Mae hyn yn cynrychioli cylch cynllunio chwe blynedd sy'n diweddu gyda chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Rhagfyr 2015.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i Gymru yn ymdrin â llifogydd ar brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr.

### Cynlluniau Drafft Rheoli Perygl Llifogydd

Ar y 10fed Hydref 2014, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dri Chynllun drafft Rheoli Perygl Llifogydd at ddibenion ymgynghori, yn cwmpasu Ardal Basn Afon Hafren; Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Cafodd Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren ac Afon Dyfrdwy eu cynhyrchu ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Law yn llaw â phob un o'r cynlluniau hyn cyhoeddwyd adroddiad amgylcheddol, yn cyflwyno'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Mae'r cynlluniau drafft yn cyflwyno cynigion i reoli'r perygl llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, ledled Cymru am y chwe blynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny. Maen nhw'n disgrifio beth sy'n wynebu perygl llifogydd ac ym mhle, ac o ba ffynhonnell. Yn bwysicaf oll, mae'r cynlluniau'n nodi pa fesurau yr hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd i'r cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd.

Parodd yr ymgynghoriad cyhoeddus o 10fed Hydref 2014 tan 31ain Ionawr 2015 ac roedd yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn Ymgynghori 1
Ydych chi'n cytuno fod y cynllun drafft hwn yn dangos y problemau perygl llifogydd mwyaf arwyddocaol ar gyfer eich ardal chi? (ydwyf / nac ydwyf). Os 'nac ydwyf' eglurwch beth ydych chi'n feddwl sydd ar goll.

Cwestiwn Ymgynghori 2
Beth ydych chi'n ystyried fel y blaenoriaethau mwyaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn eich ardal?

Mae'n bwysig cael yr amcanion rheoli perygl llifogydd cywir, gan gofio am effeithiau llifogydd ar bobl, eiddo a'r amgylchedd.

Cwestiwn Ymgynghori 3
Ydych chi'n deall yr amcanion sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun drafft? (ydwyf / nac ydwyf). Os 'nac ydwyf', beth fyddai'n eich helpu i'w deall yn well?

Cwestiwn Ymgynghori 4
Oes yna gydbwysedd iawn rhwng yr amcanion ‘cymdeithasol’, ‘economaidd’ ac ‘amgylcheddol’ sy’n cael eu hegluro yn y cynllun drafft? (oes / nac oes). Os ‘nac oes’ beth fyddech chi'n ei newid a pham?

Cwestiwn Ymgynghori 5
Oes yna amcanion rheoli perygl llifogydd eraill y dylid eu cynnwys? (oes / nac oes). Os ‘oes’, eglurwch beth ydyn nhw a pham y dylen nhw gael eu cynnwys?
Mae’r cynllun drafft hwn yn cynnig ‘mesurau' newydd i reoli perygl llifogydd a hefyd fesurau sydd eisoes ‘wedi’u cytuno’ ac yn ‘barhaus’.

Cwestiwn Ymgynghori 6
Ydych chi'n deall y gwahaniaeth rhwng y mesurau ‘parhaus’, ‘cytunwyd’ ac ‘arfaethedig’ sy’n cael eu hegluro yn y cynllun drafft? (ydwyf / nac ydwyf). Os ‘nac ydwyf’, beth fyddai’n eich helpu i’w deall yn well?

Trwy’r holl fesurau ‘arfaethedig’, a ‘gytunwyd’ a ‘pharhaus’, mae’r cynllun yn disgrifio dulliau ‘atal’, ‘paratoi’, ‘gwarchod’ ac ‘adfer ac adolygu’.

Cwestiwn Ymgynghori 7
A yw’r cydbwysedd yn iawn rhwng y gwahanol fathau o ddulliau sy’n cael eu hegluro yn y cynllun drafft? (ydyw / nac ydyw). Os ‘nac ydyw’, pa fesurau arfaethedig fyddech chi’n eu newid a pham?

Cwestiwn Ymgynghori 8
Oes yna fesurau arfaethedig eraill y dylid eu cynnwys? (oes / nac oes). Os ‘oes’, eglurwch beth ydyn nhw a pham y dylen nhw gael eu cynnwys.

Cwestiwn Ymgynghori 9
Sut gallwch chi gefnogi’r gwaith lleihau perygl llifogydd sy’n cael ei ddangos yn y cynllun rheoli perygl llifogydd?

Yn ogystal â’r cynlluniau rheoli perygl llifogydd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar ddiweddariadau drafft i’r cynlluniau rheoli basn afon fel rhan o’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sy’n cynnwys mesurau i wella dŵr mewn afonydd, llynnoedd, aberoedd, arfordiroedd ac mewn dŵr daear.

Cwestiwn Ymgynghori 10
Ydych chi’n meddwl fod yna bethau y dylid eu gwneud i gydlynu cynllunio basn afon a rheoli perygl llifogydd yn well?

Cwestiynau Ymgynghori’r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cwestiwn Ymgynghori 11
Ydych chi’n cytuno gyda chasgliadau’r asesiad amgylcheddol? (ydwyf / nac ydwyf). Os ‘nac ydwyf’ eglurwch pam.

Cwestiwn Ymgynghori 12
Oes yna unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol pellach yn codi o’r cynllun drafft rydych chi’n meddwl y dylid eu hystyried? (oes / nac oes). Os ‘oes’, disgrifiwch nhw.

Rydym wedi disgrifio ‘effeithiau negyddol’ posibl y cynllun drafft ar yr amgylchedd y byddai angen eu lliniaru, yn ogystal â'r cyfleoedd ehangach i gyflawni’r 'effeithiau positif'.


Cwestiwn Ymgynghori 13
Oes yna waith lliniaru neu gyfleoedd pellach i wella y dylid eu hystyried ar gyfer y cynllun? (oes / nac oes). Os ‘oes’, rhowch fanylion.
Defnyddir yr ymatebion a daeth i law yn ystod yr ymgynghori i ddiwygio’r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a chytuno arnynt ar eu gwedd derfynol yn barod i’w cyhoeddi ar 22ain Tachwedd 2015.

Diben y ddogfen hon yw darparu crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghori ynglŷn â’r cynlluniau drafft, a dangos sut y byddwn yn rhoi sylw i’r ymatebion hynny yn y cynlluniau terfynol. Mae’r ddogfen hon yn cwmpasu Cymru gyfan felly mae’n adlewyrchu ymatebion a ddaeth i law i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd a’r rhannau hynny o Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren ac Afon Dyfrdwy sy’n ymdrin â Chymru.

Gellir gweld y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd drafft i Gymru ar y dudalen ganlynol:
http://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations-closed/consultation-on-draft-flood-risk-management-plans-for-wales/?lang=cy

## 2. Crynodeb o’r ymatebion

Daeth 47 ymateb gwahanol i law i’r ymgynghoriad ar Gynlluniau drafft Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru, 12 i Ardal Basn Afon Dyfrdwy, 13 i Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac 14 i ran Cymru o ardal afon Hafren. Cafwyd 8 ymateb cyffredinol hefyd a oedd yn berthnasol i bob un o’r cynlluniau. Yn y tudalennau sy’n dilyn ceir ein hymateb cychwynnol i’r sylwadau a ddaeth i law.




Ffigur 1: Cyfran ymatebion fesul Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy – crynodeb o’r ymatebion

- Cytunai 54% o’r rhai a ymatebodd fod Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft afon Dyfrdwy yn nodi’r materion pwysicaf o ran perygl llifogydd.
- Roedd 85% o’r ymatebwyr yn deall yr amcanion sydd wedi’u cynnwys yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft afon Dyfrdwy.
- Teimlai 46% o’r ymatebwyr fod y cydbwysedd yn iawn rhwng amcanion ‘cymdeithasol’, ‘economaidd’ ac ‘amgylcheddol’. Roedd 39% yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan 15%.
- Mewn ymateb i’r cwestiwn a oes yna amcanion rheoli perygl llifogydd eraill y dylid eu cynnwys, roedd yr ymatebwyr yn rhanedig gyda 46% yn meddwl y dylai amcanion eraill gael eu cynnwys a 46% o’r farn nad oedd angen amcanion eraill.
- Roedd 77% o’r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng y mesurau ‘parhaus’, ‘cytunwyd’ ac ‘arfaethedig’ yn y cynllun drafft.
- Mewn ymateb i’r cwestiwn ynglŷn â’r cydbwysedd ar draws y mesurau, roedd yr ymateb yn gymysg: teimlai 38% o’r ymatebwyr nad oedd y cydbwysedd yn iawn, teimlai 31% ei fod yn iawn ac ni fynegodd 31% farn. Teimlai’r ymatebwyr hynny oedd yn credu nad oedd y cydbwysedd yn iawn y dylai fod mwy o bwyslais ar fesurau atal ac y dylid gwneud mwy i integreiddio prosesau naturiol i waith rheoli perygl llifogydd.
- Teimlai 77% o’r ymatebwyr fod mesurau eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y cynllun. Ymysg y mesurau ychwanegol a awgrymwyd mae: gweithio’n agosach gydag awdurdodau rheoli risg eraill; grantiau coedwigaeth; Rheoli Llifogydd yn Naturiol; gwneud lle i ddŵr; gwella arferion ffermio âr; a thaliadau realistig i ffermwyr am gynlluniau amgylcheddol.

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren – crynodeb o’r ymatebion

- Cytunai 58% o’r rhai a ymatebodd fod Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft afon Hafren yn nodi’r materion pwysicaf o ran perygl llifogydd.
- Roedd 79% o’r ymatebwyr yn deall yr amcanion yn y cynllun drafft.
- Teimlai 50% o’r ymatebwyr nad yw’r cydbwysedd yn iawn rhwng amcanion ‘cymdeithasol’, ‘economaidd’ ac ‘amgylcheddol’ yn y cynllun drafft. Teimlai 43% fod y cydbwysedd yn iawn ac ni fynegwyd barn gan 7%.
- Teimlai 43% o’r ymatebwyr fod yna amcanion ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y cynllun. Mae’r amcanion ychwanegol a awgrymwyd yn cynnwys: newid hinsawdd; rheoli llifogydd yn naturiol; cysylltiadau â’r Cynllun Rheoli Basn Afon a gweithio gydag eraill.
- Roedd 72% o’r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng y mesurau ‘parhaus’, ‘cytunwyd’ ac ‘arfaethedig’ yn y cynllun drafft.
- Roedd 44% o’r ymatebwyr yn cytuno bod y cydbwysedd yn iawn rhwng y mathau o fesurau fel y’u heglurwyd yn y cynllun. Roedd 28% yn anghytuno ac nid oedd gan 28% farn.
- Teimlai 57% o’r ymatebwyr fod mesurau eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y cynllun. Ymysg y mesurau ychwanegol a awgrymwyd mae: taliadau realistig i ffermwyr am gynlluniau amgylcheddol; gweithio’n agosach gydag awdurdodau rheoli risg eraill a Rheoli Llifogydd yn Naturiol.

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru – crynodeb o’r ymatebion

- Cytunai 53% o’r rhai a ymatebodd fod Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft Gorllewin Cymru yn nodi’r materion pwysicaf o ran perygl llifogydd.
- Roedd 88% o’r ymatebwyr yn deall yr amcanion yn y cynllun drafft.
- Cytunai 47% o’r ymatebwyr fod y cydbwysedd yn iawn rhwng amcanion ‘cymdeithasol’, ‘economaidd’ ac ‘amgylcheddol’. Roedd 41% yn anghytuno ac nid oedd gan 12% farn.
- Mewn ymateb i’r cwestiwn a oes yna amcanion rheoli perygl llifogydd eraill y dylid eu cynnwys, roedd yr ymatebwyr yn rhanedig gyda 47% yn meddwl y dylai amcanion eraill gael eu cynnwys a 47% o’r farn nad oedd angen amcanion eraill.

- Roedd 81% o’r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng y mesurau ‘parhaus’, ‘cytunwyd’ ac ‘arfaethedig’ yn y cynllun drafft.
- Roedd 47% o’r ymatebwyr yn cytuno bod y cydbwysedd yn iawn rhwng y mathau o fesurau fel y’u heglurwyd yn y cynllun. Roedd 29% yn anghytuno ac nid oedd gan 24% farn.
- Teimlai 59% o’r ymatebwyr fod mesurau eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y cynllun. Ymysg y mesurau ychwanegol a awgrymwyd mae: gweithio’n agosach gydag awdurdodau rheoli risg eraill; taliadau realistig i ffermwyr am gynlluniau amgylcheddol; Rheoli Llifogydd yn Naturiol, gan ymchwilio i opsiynau yn ymwneud â chronfeydd dŵr; grantiau coedwigaeth; a rhai mesurau penodol ar gyfer cymunedau lleol.

## 3. Rhestr Ymatebwyr

Ymatebodd 33 sefydliad gwahanol a phartïon â buddiant i’r ymgynghoriad ar y Cynlluniau drafft Rheoli Perygl Llifogydd. Mae’r tabl isod yn dangos pa rai a ymatebodd i ba Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) drafft fel y maent yn berthnasol i Gymru.

Mae’r drefn diogelu data yn atal enwi unigolion nad ydynt wedi rhoi caniatâd inni i gyhoeddi eu manylion. Mae copi o’r ymatebion ar gael drwy wneud cais.


| Sefydliad | Ymateb cyffredinol | FRMP Dyfrdwy | FRMP Hafren | FRMP Gorllewin Cymru |
|---|---|---|---|---|
| ADA Cymru | Ie | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | | | Ie | |
| BDM Morfa Gwent | | | Ie | |
| Cyngor Sir Ceredigion | | | | Ie |
| Dinas a Sir Abertawe | | | | Ie |
| CLA Cymru | | Ie | Ie | Ie |
| Coed Cymru | | Ie | | Ie |
| Confor | | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | | Ie | | Ie |
| Dŵr Cymru Welsh Water | Ie | | | |
| Energy UK | | | | Ie |
| Undeb Amaethwyr Cymru | Ie | | | |
| Flood Prevention Society | Ie | | | |
| Ymddiriedolaeth Natur Gwent | | | Ie | |
| Unigolyn | | | | Ie |
| ICE Cymru | | | Ie | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | | | Ie | |
| Middle Dee Partnership | | Ie | | |

| Sefydliad | Ymateb cyffredinol | FRMP Dyfrdwy | FRMP Hafren | FRMP Gorllewin Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru | | Ie | Ie | Ie |
| Natural England | | Ie | Ie | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Dinas Casnewydd | | | Ie | |
| Cyngor Sir Powys | | | Ie | |
| Cadwch Gymru'n Daclus | Ie | | | |
| RWE Innogy UK Ltd | | | | Ie |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | | Ie | | Ie |
| Tidal Dee Partnership | | Ie | | |
| Tidal Lagoon Power | | Ie | Ie | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | | | Ie | Ie |
| Sefydliad Tir Gwyllt Cymru | Ie | | | |
| Welsh Dee Trust | | Ie | | |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Ie | | | |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru | Ie | | | |
| Cyfanswm (47): | 8 | 12 | 14 | 13 |

Cofnodwyd yr ymatebwyr o dan y sectorau maen nhw'n eu cynrychioli. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol ar draws y tri Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft sy'n ymdrin â Chymru:

- Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig
- Pysgota, pysgodfeydd a chadwraeth
- Busnes a diwydiant
- Llywodraeth Ganolog
- Datblygwr
- Coedwigaeth
- Unigolyn
- Llywodraeth Leol
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Corff Anllywodraethol
- Sefydliad Aelodaeth Broffesiynol
- Diwydiant Dŵr

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfran yr ymatebion a ddaeth i law, fesul sector.




Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr yn ôl sector

## 4. Trosolwg o'r materion allweddol a godwyd a'n hymateb ni

Rydym wedi crynhoi'r ymatebion o dan feysydd pwnc gan egluro pa gamau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd neu y byddwn yn eu cymryd cyn cytuno'n derfynol ar y cynlluniau o safbwynt y meysydd pwnc hyn. Dyma'r themâu allweddol sy'n berthnasol i bob un o'r tri Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yng Nghymru.

**Thema:** Newid hinsawdd
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Nododd rhai ymatebwyr mai prin oedd y cyfeiriadau at newid hinsawdd a'r effeithiau posib ar berygl llifogydd, yn deillio'n enwedig o'r perygl y bydd lefel y môr yn codi.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Nid yw newid hinsawdd o fewn gofynion y cylch gwaith cyntaf hwn o dan y Gyfarwyddeb Llifogydd, ond bydd yn ofynnol fel rhan o'r ail gylch. Caiff y cynlluniau eu newid i egluro hyn ynghyd â gwella'r cyfeiriadau at newid hinsawdd drwy'r cynlluniau ar eu hyd.

**Thema:** Diffiniadau
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Nododd ymatebwyr fod angen diffinio 'gweithio gyda phrosesau naturiol', 'y dull ecosystem' a 'gwydnwch'. Hefyd, mae angen disgrifiad cliriach o ffynonellau perygl llifogydd, amserlen â blaenoriaeth a mesur y 'Cynnydd o ran Gweithredu'.

**Gweithredu drwy'r FRMP:** Caiff diffiniadau eu hychwanegu at yr eirfa ym mhob un o'r tri Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd.

**Thema:** Rheoli tir
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai rhai ymatebwyr y dylai amaethyddiaeth a'r economi wledig fod yn flaenoriaeth wrth reoli perygl llifogydd yn lleol ac y dylid cyfeirio at gynlluniau presennol, ymdrechion a gofynion trawsgydymffurfio sydd eisoes ar waith er mwyn i ffermwyr reoli priddoedd. Dylid rhoi blaenoriaeth i newid a rheoli defnydd tir i helpu i leihau'r perygl llifogydd mewn ardaloedd lle bydd hynny'n gwneud cyfraniad gwerthfawr, ond rhaid ymgynghori â chymunedau yn gyntaf.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'r mesurau yn y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar y thema hon gan ein bod yn pennu blaenoriaethau ein cyllideb perygl llifogydd yn unol â'r polisïau buddsoddi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'n bod felly yn rhoi blaenoriaeth i achosion pan fo'r risg i bobl ac eiddo fwyaf wrth ddefnyddio ein hadnoddau. Teimlwn fod y mesurau sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, bydd y testun sydd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau ar reoli tir yn cael ei wella i adlewyrchu'r polisi sy'n datblygu yng Nghymru yn sgil Bil yr Amgylchedd, yn enwedig o safbwynt Rheoli Adnoddau Naturiol a sut y bydd hyn yn gwella'r ffordd rydyn ni'n rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

**Thema:** Cyswllt â Chynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs)
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai fod gwell cysylltiadau rhwng yr FRMPs drafft a'r RBMPs. Teimlai un ymatebydd y dylai CNC anelu at un cynllun Ardal Basn Afon (RBD) holistaidd sy'n darparu'r fframwaith i'r holl gynlluniau perthnasol (RBMPs, FRMPs, FRMPs lleol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, etc) i sicrhau arbedion a gwneud yn siŵr nad oes mesurau'n gwrth-ddweud ei gilydd. Teimlai eraill hefyd y dylai CNC geisio cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr holl Awdurdodau Rheoli Risg fel bod modd rhannu a chydlynu gwybodaeth ar draws swyddogaethau lle mae hynny'n bosibl. Mae angen gwell pontio rhwng y Gyfarwyddeb Llifogydd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn enwedig lle mae yna wrthdaro.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn dangos ac yn gwireddu gwell integreiddio rhwng y ddwy set o gynlluniau. Mae hyn yn beth pwysig iawn i'w gael yn iawn yn ein barn ni ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm RBMP i integreiddio mesurau yn y cynlluniau terfynol a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu wrth inni gyflawni ein gweithrediadau a'n prosiectau.

**Thema:** Rheoli Llifogydd yn Naturiol
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai llawer o ymatebwyr fod manteision rheoli llifogydd yn naturiol wedi'u cynnwys ond y dylai mesurau sy'n ymdrin yn fwy penodol â lleoliadau neilltuol gael eu cynnwys yn y cynlluniau. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid ystyried opsiynau fesul achos gan wneud mwy o ymdrech i ymgysylltu a chyfathrebu â pherchnogion tir / partïon â buddiant ynglŷn â'r opsiynau a'r buddion. Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwneud gwaith mapio gofodol yn g Nghymru i nodi cyfleoedd i greu coetiroedd gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â hynny.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Mae cyfleoedd o ran mapiau creu coetiroedd wedi cael eu datblygu yng Nghymru a byddant yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Bydd y cynlluniau yn cael eu diweddaru i gynnwys cyfeiriad at y mapiau hyn, ynghyd â mesur newydd Ardal Basn Afon sy'n annog creu coetiroedd sydd â buddion rheoli perygl llifogydd ar sail y mapiau hyn. Byddwn hefyd yn ystyried cynnwys mesurau newydd Ardal Basn Afon yn y cynlluniau i

annog defnyddio mwy ar ddulliau rheoli llifogydd naturiol a gwell cyfathrebu â'r rhai sydd â diddordeb.

**Thema:** Amcanion

**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:**

Nodwyd y canlynol fel ychwanegiadau posibl at amcanion y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd:

- dylai fod amcanion yn ymwneud â gweithio gydag eraill a / neu bartneriaid; ymaddasu i newid hinsawdd; a chyd-drefnu'n gwaith yn fwy effeithiol gyda phobl eraill fel bod pawb yn rhannu'r un nod o reoli dŵr ym mhobman er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi;
- dylai ffocws yr amcanion fod yn fwy amgylcheddol. Dim ond un amcan sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol ac mae angen i'r dull ecosystem gael ei wreiddio'n llwyr yn hytrach na'i fod yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu ar ddiwedd proses;
- dylai'r amcanion gyfeirio'n benodol at leihau nifer y bywydau sy'n cael eu colli;
- dylai fod amcan penodol yn canolbwyntio ar integreiddio â'r RBMP; a

**Gweithredu drwy'r FRMP:** Rydym yn teimlo ei bod yn wirioneddol bwysig cael amcanion y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) yn iawn. Dros y misoedd nesaf felly byddwn yn adolygu'r amcanion presennol a'r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn eu newid yng ngoleuni hynny.

Y themâu a drafodir uchod oedd y materion allweddol a godwyd ar draws y tri Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd i Gymru. Ceir crynodeb a dadansoddiad pellach yn yr atodiad. Hefyd, mae'r adran nesaf yn amlinellu'r adborth mewn perthynas â phob Ardal Basn Afon benodol.

### Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Dyfrdwy – crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law (yn cwmpasu'r Ardal Basn Afon, Dalgylchoedd a Mesurau)

Teimlai ymatebwyr fod rhai agweddau pwysig ar goll o grynodeb Ardal Basn Afon Dyfrdwy ar gyfer y rhan o'r Ddyfrdwy oedd yng Nghymru, yn arbennig effeithiau trefoli ar berygl llifogydd, fflachlifoedd, capasiti draenio pridd a llifogydd sy'n para'n hir. Awgrymwyd hefyd y gallai dau fesur newydd ar raddfa Ardal Basn Afon gael eu hychwanegu at y Cynllun. Byddwn yn ystyried y sylwadau a ddaeth i law ymhellach a, lle mae hynny'n briodol, byddwn yn eu hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol.
Nododd ymatebwyr fod pethau wedi'u gadael allan yn yr adran dalgylch o ran yr effaith a gaiff newidiadau yn y defnydd o dir gwledig ar berygl llifogydd, ac nad oes cyfeiriad at y coetiroedd hynafol sydd yn yr Ardal. Byddwn yn newid hyn yn y cynllun terfynol.
O ran y mesurau yn y cynllun, teimlai ymatebwyr fod angen mwy o bwyslais ar fesurau i leihau'r perygl llifogydd drwy ddulliau naturiol. Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni'n cytuno ag ef a byddwn yn ei gryfhau yn y cynllun terfynol. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith fod angen i'r cynllun, ac yn arbennig y mesurau yn y cynllun fod yn ddigon hyblyg bob amser i allu manteisio ar gyfleoedd a allai godi i wireddu canlyniadau da o ran rheoli perygl llifogydd. Cytunwn â hyn a byddwn yn adolygu'r cynllun yn flynyddol er mwyn gallu achub ar gyfleoedd fel maen nhw'n codi.

### Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren – crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law (yn cwmpasu'r Ardal Basn Afon, Dalgylchoedd a Mesurau)

Teimlai ymatebwyr fod rhai agweddau pwysig ar goll o grynodeb Ardal Basn Afon Hafren, yn arbennig gyfeiriadau at bwysigrwydd y diwydiant amaethyddol a'r gwir broblemau o ran

perygl llifogydd (ffyrdd dan ddŵr llif, tarfu ar fusnesau lleol, colli cynnyrch) yn ardal Hafren Uchaf. Cytunwn â'r adborth a gafwyd a byddwn yn newid y crynodeb yn y cynllun terfynol. Nododd ymatebwyr fod pethau wedi'u gadael allan yn yr adrannau dalgylch o ran Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), a chyfeirio at y ffaith y bydd y byrddau draenio mewnol (BDM) yn dod yn rhan o CNC yn nalgylchoedd Wysg a Chymoedd y Dwyrain. Nododd ymatebwyr hefyd nad oedd pwysigrwydd ffermio âr a chynnyrch llaeth yn nalgylch Hafren Uchaf wedi'i nodi. Byddwn yn newid hyn yn y cynllun terfynol. Hefyd, cododd ymatebwyr gwestiynau ynglŷn ag agweddau o'r crynodebau dalgylch – byddwn yn gwneud hyn yn glir yn y cynllun terfynol.
O ran y mesurau yn y cynllun, cododd ymatebwyr bryderon ynglŷn â chydbwysedd y gwahanol fathau o fesurau o fewn rhai dalgylchoedd. Byddwn yn adolygu hyn ar gyfer y cynllun terfynol ac yn ceisio egluro'r mathau o fesurau sy'n disgyn i bob categori o fesurau (sef Gwarchod, Atal, Paratoi, Adfer ac Adolygu). Dywedwyd hefyd fod yr amserlen o ran y flaenoriaeth a roddir i fesurau yn aneglur, felly byddwn yn rhoi sylw i hyn yn y cynllun terfynol.
Awgrymodd ymatebwyr nifer o fesurau newydd a fyddai'n fwyaf priodol ar raddfa Ardal Basn Afon o ystyried yr angen am atebion arloesol i berygl llifogydd, gweithio gyda rhanddeiliaid a defnyddio'u gwybodaeth leol ac egluro pwy sydd â chyfrifoldebau ar hyd glannau afonydd.

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Gorllewin Cymru – crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law (yn cwmpasu'r Ardal Basn Afon, Dalgylchoedd a Mesurau)

Teimlai ymatebwyr fod rhai agweddau pwysig ar goll o grynodeb Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys anhydreiddedd yr amgylchedd trefol, pwysigrwydd gwella llifoedd drwy rannau isaf dalgylchoedd yr ardal ac adlewyrchu defnydd tir cyfredol yr ardal yn well. Byddwn yn ystyried y sylwadau a ddaeth i law ymhellach a, lle mae hynny'n briodol, byddwn yn eu hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol.
Nododd ymatebwyr fod cyfeiriad at lifogydd sy'n para'n hir a'r ystyriaethau sy'n deillio o hynny wedi'i adael allan mewn rhai adrannau dalgylch. Nododd ymatebwyr hefyd fod angen rhagor o fesurau rheoli llifogydd yn naturiol yn y cynllun. Byddwn yn rhoi sylw i'r sylwadau hyn yn y cynllun terfynol.
Roedd ymatebwyr am gael eglurhad ynghylch rhai mesurau yn y cynllun a byddwn yn egluro'r rhain yn y cynllun terfynol. Awgrymodd ymatebwyr fesurau newydd hefyd y bydd gofyn eu hystyried ymhellach cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n derfynol.

## Crynodeb o'r ymatebion i Adroddiadau Amgylcheddol y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd

Law yn llaw â phob un o'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd cyhoeddwyd Adroddiad Amgylcheddol a oedd yn cofnodi effeithiau negyddol a chadarnhaol arwyddocaol posibl y mesurau oedd yn cael eu cynnig yn y cynlluniau. Mae hyn yn rhan o broses yr Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Gweithiodd CNC yn agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i asesu effeithiau cynlluniau trawsffiniol posibl. Byddwn yn rhoi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghoriad lle maent yn berthnasol i'r rhannau o'r ardaloedd basn afon sydd yng Nghymru. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi sylw i'r ymatebion sy'n berthnasol i'r rhannau hynny o'r ardaloedd sydd yn Lloegr.

Ceir crynodeb isod o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiynau ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r camau gweithredu rydyn ni'n eu cymryd. Cyhoeddir

Datganiadau Manylion Amgylcheddol hefyd ochr yn ochr â'r FRMPs terfynol i ddangos sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio i'r cynllun a sut yr adlewyrchwyd canlyniadau'r ymgynghoriadau.

Roedd ymatebwyr yn pryderu nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wedi cael ei gyhoeddi law yn llaw â'r cynllun drafft fel sail i'r Adroddiad Amgylcheddol a'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Rydym yn cytuno y dylai'r HRA gael ei gynnal ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun, a bod un yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun terfynol. Bydd yr HRA yn cael ei gwblhau ymlaen llaw fel y bo'n dylanwadu ar y gwaith o ddod â'r FRMP i ben a'i gymeradwyo. Rydym yn ymgynghori o fewn CNC (y Tîm Asesu Strategol) a Natural England ynglŷn â drafftio'r HRA a dylanwadu ar y gwaith o ddod â'r FRMP i ben a'i gymeradwyo.

Roedd pryderon fod y cynigion i fonitro effeithiau arwyddocaol y cynlluniau yn canolbwyntio gormod ar Fonitro Cynlluniau Rheoli Basn Afon ac na fyddai hynny'n canfod effeithiau ehangach ar dderbynyddion amgylcheddol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth fanylach i'r monitro y bwriadwn ei wneud ar effeithiau arwyddocaol y cynlluniau a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y Datganiad Manylion Amgylcheddol.

Cyfeiriodd ymatebwyr at dryloywder effeithiau ar dderbynyddion amgylcheddol o'u hystyried o dan Wasanaethau Ecosystemau. Rydym yn hyderus fod yr holl dderbynyddion a nodir mewn deddfwriaeth SEA wedi cael eu hystyried yn yr Adroddiad Amgylcheddol. Bydd y sylwadau a wnaed gan ymgyngoreion yn bwydo i'r gwersi a ddysgwyd wrth i'r fethodoleg rydyn ni'n ei defnyddio esblygu a datblygu o dan raglen CNC i Drawsnewid Integreiddio'r Rheolaeth ar Adnoddau Naturiol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried deddfwriaeth sydd ar fin ymddangos megis Bil yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil Cynllunio (Cymru).

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ynglŷn ag osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau ar dderbynyddion penodol; roedd ymatebwyr eraill yn hyderus y câi sylw ei roi i fesurau lliniaru ar lefel prosiect drwy Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Byddwn yn nodi'n hymrwymiad i gynnal asesiad amgylcheddol o'n prosiectau o dan bolisi CNC ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn y Datganiad Manylion a'r FRMPs terfynol.

Yng nghyswllt yr SEA daeth sylwadau i law am gysylltiadau ag RBMPs a gwireddu Rheolaeth Naturiol ar Berygl Llifogydd (NFRM), gwanhau llifogydd a storio. Dim ond y mesurau sy'n cael eu cynnig yn y cynllun ei hun y gall yr SEA eu hasesu. Rydym yn ystyried holl opsiynau perthnasol NRFM ar y lefel prosiect lleol mwy manwl, gyda'r broses werthuso opsiynau yn cael ei chyfarwyddo gan asesiad o effaith amgylcheddol achos busnes technegol ac economaidd ar gyfer pob prosiect. Bydd y cynlluniau terfynol yn ceisio integreiddio ymhellach â'r RBMPs a byddant yn ceisio cyfleoedd i wireddu NFRM (gweler y sylwadau ar y themâu uchod).

## 5 Y Camau Nesaf

Lle mae unigolion am ganlyn hynt eu hymateb nhw neu bwyntiau a wnaed yn y ddogfen hon ymhellach, mae croeso iddynt gysylltu â ni.

Cysylltwch â:
Rachel Sion,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Tŷ Cambria,
29 Heol Casnewydd,
Caerdydd,
CF24 0TP

Ebost: flood.risk.management.plan@naturalresources.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000

Caiff ymatebion o'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio fel sail i ddatblygu a chyflawni'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd terfynol. Cyhoeddir fersiwn derfynol y cynlluniau hyn ar ein gwefan erbyn 22ain Rhagfyr 2015.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar themâu ychwanegol**

**Thema:** Bioamrywiaeth
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o gyfeirio yn y cynlluniau at fioamrywiaeth neu ardaloedd gwarchodedig.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ystyried ychwanegu testun neu fesurau ar adfer a rheoli bioamrywiaeth a gwarchod ac adfer ardaloedd dynodedig.

**Thema:** Cael caniatâd
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai rhai ymatebwyr fod angen dull symlach o wneud cais am ganiatâd i ymgymryd â chynnal a chadw gwledig a bod angen mwy o gefnogaeth gan CNC i unigolion sy'n dymuno gwneud gwaith cynnal a chadw eu hunain.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ystyried ychwanegu mesur Ardal Basn Afon newydd yn ymdrin â gwreiddio'r broses newydd o gael Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

**Thema:** Monitro'r cynlluniau
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Awgrymodd un ymatebwr y dylid rhannu'r adolygiad blynyddol gydag Awdurdodau Rheoli Risg unwaith y bydd wedi'i gwblhau.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ychwanegu brawddeg at y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i gyfeirio at rannu'r adolygiad blynyddol ag eraill.

**Thema:** Adfer ac Adolygu
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai mwy o gamau adfer ac adolygu gael eu cynnwys yn y cynlluniau.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ychwanegu esboniad at y cynlluniau mewn perthynas â'r nifer o gamau adfer ac adolygu wedi'u cynnwys yn yr FRMP neu pam eu bod yn gyfyngedig.

**Thema:** Datblygu Cynaliadwy
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai rhai ymatebwyr fod angen diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy a beth yw egwyddorion datblygu cynaliadwy.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ychwanegu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a'i egwyddorion at bob un o'r cynlluniau.

**Thema**: Gweithio gydag eraill
**Sylwadau yn yr ymgynghoriad:** Teimlai rhai ymatebwyr y dylai gwaith rheoli perygl llifogydd gael ei integreiddio'n llwyr i bartneriaethau dalgylch, er mwyn sicrhau mwy o fudd i bawb. Dylai'r cynlluniau gael eu rhoi ar waith mewn partneriaeth lle mae posib gwneud hynny.
**Gweithredu drwy'r FRMP:** Byddwn yn ychwanegu testun am gynlluniau peilot dalgylch CNC a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol drwy newidiadau i Fil yr Amgylchedd.

# Atodiad 2

**Ystadegau Cwestiynau**

### Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy – Crynodeb o'r ymateb i'r cwestiynau ymgynghori

| Cwestiwn Ymgynghori | 1 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadarnhaol | 54% | 85% | 46% | 46% | 77% | 31% | 77% |
| Negyddol | 38% | 15% | 39% | 46% | 8% | 38% | 8% |
| Dim Ymateb | 8% | 0 | 15% | 8% | 15% | 31% | 15% |

### Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren – Crynodeb o'r ymateb i'r cwestiynau ymgynghori

| Cwestiwn Ymgynghori | 1 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadarnhaol | 58% | 79% | 43% | 43% | 72% | 44% | 57% |
| Negyddol | 21% | 14% | 50% | 43% | 7% | 28% | 29% |
| Dim Ymateb | 21% | 7% | 7% | 14% | 21% | 28% | 14% |

### Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru – Crynodeb o'r ymateb i'r cwestiynau ymgynghori

| Cwestiwn Ymgynghori | 1 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadarnhaol | 53% | 88% | 47% | 47% | 81% | 47% | 59% |
| Negyddol | 41% | 12% | 41% | 47% | 6% | 29% | 29% |
| Dim Ymateb | 6% | 0 | 12% | 6% | 12% | 24% | 12% |

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw